

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# PECYN CAIS
# AM
# SWYDD

www.tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw iddo 'fod yn arweinydd byd mewn ymateb brys a diogelwch cymunedol.' Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu'r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fanteision y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,



Roger Thomas
Prif Swyddog Tân, *Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig*

# EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

# OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.



#EichGTACGC #YourMAWWFRS

## YMDDYGIADAU


- Bod yn Atebol
- Bod yn Barchus
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Ddiduedd
- Bod yn Foesegol

**Bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu yn erbyn yr ymddygiadau hyn drwy gydol y broses recriwtio.**

## GALLUOGI

- Ein pobl
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cadernid Ariannol
- Partneriaethau a Chydweithio

# Manylion am y Gwasanaeth




Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**

yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân

gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

**Cyfraddau cyflog cystadleuol -**
wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -**
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

**Gwyliau Blynyddol hael –**
26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

**Cynllun Hyblyg –**
Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith wedi'i Ffurfio gan ein Gwerthoedd

### Wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd prosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ganfod, deall a dileu'r holl rwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol ar waith, sy'n chwarae rhan weithredol yn y dasg o:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisi;
- Gwella'r amgylchedd gwaith i'r gweithwyr

wedi ymrwymo i leihau ein heffaith amgylcheddol

### Wedi ymrwymo i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol oddi mewn i gyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein ras i Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae'r Gwasanaeth wedi pennu targedau iddo'i hun sy'n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5, a hynny am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

**#SERO30**

# Proffil Swydd

Cyflog: £52,805 - £54,838

**MANYLION AM Y SWYDD HON**

Mae'r rôl hon, sydd wedi'i lleoli yn y pencadlys yng Nghaerfyrddin, wrth wraidd y gwaith sydd ei angen ar gyfer un o'r Gwasanaethau Tân mwyaf yng Nghymru a Lloegr, gan ddarparu'r asgwrn cefn technolegol hanfodol ar gyfer y Gwasanaeth. Byddwn yn eich gwobrwyo gyda buddion mawr, gan gynnwys pensiwn hael, a byddech yn rhan o'r symud yn 2024 i swyddfeydd TGCh wedi'u hadnewyddu. Byddech yn gwybod hefyd bod y gwaith yr ydych chi'n ei wneud yn helpu i achub bywydau ac yn helpu cymunedau ledled Cymru.

Mae hon yn rôl llawn amser yn yr adran TGCh, gan adrodd i'r Pennaeth TGCh a chyflawni swyddogaethau'r Dirprwy Bennaeth TGCh. Fel rheolwr y Tîm Systemau Busnes TGCh, byddwch yn gyfrifol am oruchwylio systemau a seilwaith ar draws ardal y Gwasanaeth, gan gynnig cyngor, gwybodaeth a datrysiadau TGCh gwych i ddefnyddwyr.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ymfalchïo yn eu dull arloesol o ddatrys problemau a defnyddio technoleg i wella'r ffordd y gall gweithwyr sicrhau canlyniadau. Gyda chymysgedd o dechnolegau blaengar a hen rai ar waith ar hyn o bryd, byddwn yn ceisio defnyddio TGCh i roi'r gorau i ddefnyddio hen systemau a chyflwyno systemau newydd sy'n addas ar gyfer y gweithle modern, a symleiddio prosesau gweithio gydag offer awtomataidd.

Ar hyn o bryd mae TGCh o fewn y Gwasanaeth yn newid yn gyflym gyda phrosiectau diddorol yn cael eu cyflwyno dros y blynyddoedd nesaf. Bydd rhai o'r prosiectau hyn yn creu newid cadarnhaol mawr o fewn y sefydliad a bydd TGCh yn ganolog iddynt, felly mae'n gyfle gwych i rywun sy'n angerddol ac yn frwdfrydig am TGCh ac sy'n weithgar iawn.

Mae ardal gwasanaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwmpasu 12,000km o Gymru, gyda 58 o orsafoedd, o Ynys Bŷr yn y de-orllewin hyd at Lanfyllin yn y gogledd-ddwyrain. Bydd darparu TGCh i rai ardaloedd yn gofyn am gryn dipyn o deithio ac aros oddi cartref yn ystod yr wythnos waith.

**Y Person**

Bydd gennych lefel uchel o wybodaeth am seiberddiogelwch a phrofiad o ddiogelu systemau o'r dechrau yn ogystal â gwaith diogelwch adferol.

Mae'r rôl yn gofyn am sgiliau TGCh cyffredinol gwych, a gwybodaeth dechnegol brofedig o rwydweithio, gweinyddion (diriaethol a rhithiol, cwmwl ac ar y safle), meddalwedd a chaledwedd, a chithau wedi cyflwyno eich syniadau arloesol eich hun, sydd wedi arwain at newid sylweddol yn eich swyddi blaenorol. Mae sgiliau arweinyddiaeth cadarn yn hanfodol i'r rôl hon, gyda ffocws cryf ar bobl a'r gallu i roi'r tîm a'r sefydliad o'ch blaen chi eich hun. Er y byddwch yn arwain tîm, bydd y rôl hon yn ymarferol iawn a bydd yn addas i rywun sy'n mwynhau'r agweddau technegol ar TGCh.  Bydd gennych sgiliau rheoli prosiect da gan ddefnyddio methodolegau amrywiol a'r gallu i greu cynlluniau gwaith gydag amserlenni a chyllidebau priodol.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Dirprwy Bennaeth TGCh |
| **SAFLE/RÔL:** | Gradd 13 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | |
| **LLEOLIAD:** | Yr Adran TGCh, Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **YN GYFRIFOL I:** | Y Pennaeth TGCh |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Rheoli'r Tîm Systemau Busnes TGCh a sicrhau bod ei rolau a'i gyfrifoldebau'n cael eu cyflawni'n gywir, yn ddiogel ac i safon uchel.<br><br>Dirprwyo ar ran y Pennaeth TGCh gan sicrhau y cynhelir lefelau uchel o ymddygiad proffesiynol. |

| ATODLEN O GYFRIFOLDEBAU | YN GYFRIFOL I |
|---|---|
| 1. Dirprwyo ar ran y Pennaeth TGCh fel y bo'n briodol | Y Pennaeth Adnoddau Corfforaethol |
| 2. Cyflawni dyletswyddau rheolwr adran fel y'u pennir gan y Pennaeth TGCh, gan gynnwys lles staff, datblygiad, gwaith papur gweinyddu gweithdrefnol, ac ati | Y Pennaeth TGCh |
| 3. Gweithio'n agos gyda'r Pennaeth TGCh i gyflwyno'r strategaeth TGCh i'r Tîm Systemau Busnes a'r adran ehangach | Y Pennaeth TGCh |
| 4. Sicrhau gwybodaeth barhaus am waith y Tîm Systemau Busnes, yn ogystal â throsolwg ohono, fel bod gwybodaeth a sgiliau yn cael eu trosglwyddo mewn modd effeithiol, yn ôl y gofyn | Y Pennaeth TGCh |
| 5. Rheoli ac arwain y tîm Systemau Busnes, gan ddarparu'r cyngor a'r arweiniad technegol angenrheidiol i sicrhau bod y tîm yn cyflawni ei amcanion mewn modd amserol ac effeithlon, a sicrhau bod rhywun yn cyflenwi ar gyfer tasgau'r tîm yn achos absenoldebau staff. | Y Pennaeth TGCh |
| 6. Darparu dadansoddiad technegol manwl o galedwedd TGCh, gan gynnwys gweinyddion, switshis, waliau tân, ceblau, systemau cwmwl, diogelwch a systemau meddalwedd a systemau gweithredu mawr. | Y Pennaeth TGCh |
| 7. Darparu rheolaeth linell, cyngor technegol, mentora, cymorth ac atebion i'r tîm Systemau Busnes yn eu rolau rhwydwaith, systemau a bwrdd gwaith, yn ogystal â'r adran ehangach, fel y bo'n briodol | Y Pennaeth TGCh |
| 8. Creu cynnig technegol ar gyfer uwchraddio neu greu rhwydwaith, seilwaith neu systemau TGCh newydd, gan gynnwys atebion rhwydweithiau aml-weinydd neu ddiangen | Y Pennaeth TGCh |
| 9. Gwerthuso syniadau sy'n dod i law'r Tîm Cynghori Systemau Gwybodaeth (ISAT)/Yr Uwch-dîm Arwain/Y Tîm Arwain Gweithredol neu a gymeradwyir ganddynt, a blaenoriaethu a chynllunio'r gwaith hwnnw yn y Tîm Systemau Busnes | Y Pennaeth TGCh |
| 10. Sicrhau bod pob cais am gymorth a ddaw i law'r Ddesg Gymorth, ac sy'n rhan o gylch gwaith y Tîm Systemau Busnes a'r adran ehangach, yn cael ei gyflawni'n brydlon, yn unol â lefel ei flaenoriaeth a'r CLG, gan roi diweddariadau parhaus ar gynnydd | Y Pennaeth TGCh |

| | |
|---|---|
| 11. Sicrhau bod y Prif Systemau Gwasanaeth a Meddalwedd yn cael eu ffurfweddu a’u cynnal yn ddiogel a’u bod yn gweithredu’n effeithiol gyda’r cynllun adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes angenrheidiol yn ei le | Y Pennaeth TGCh |
| 12. Sicrhau y delir mewn modd effeithiol ag unrhyw faterion diogelwch a fynegir gan y Rheolwr Diogelwch a Chydymffurfedd TGCh, yn unol â lefel y risg a nodir | Y Pennaeth TGCh |
| 13. Helpu i ddarparu a chynnal cynhyrchion a phrosiectau newydd gan dimau TGCh eraill sy'n ymwneud â'r maes Systemau Busnes | Y Pennaeth TGCh |
| 14. Sicrhau bod ymarfer proffesiynol o safon uchel yn cael ei gynnal yn yr adran | Y Pennaeth TGCh |
| 15. Gweithio'n agos gydag adrannau eraill i sicrhau bod TGCh yn darparu help ar gyfer prosiectau a gweithrediad cyffredinol y Gwasanaeth | Y Pennaeth TGCh |
| 16. Ymgyfarwyddo â'r datblygiadau a'r newyddion diweddaraf ym maes TGCh ac yn y sector Gwasanaethau Tân ledled y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang | Y Pennaeth TGCh |
| 17. Llunio rhestrau amserol, wedi'u hymchwilio'n dda, o nwyddau y mae'n ofynnol eu caffael ar hyd y flwyddyn | Y Pennaeth TGCh |
| 18. Darparu cymorth, help ac arweiniad yn ystod digwyddiadau TGCh critigol, a hynny bob amser | Y Pennaeth TGCh |
| 19. Darparu cyngor a chynlluniau TGCh strategol ar gyfer y sefydliad | Y Pennaeth TGCh |
| 20. Sicrhau bod systemau TGCh yn gweithio'n gywir ac yn effeithiol, ac nad ydynt yn llesteirio gwaith staff y Gwasanaeth | Y Pennaeth TGCh |
| 21. Sicrhau bod gwaith y Tîm Systemau Busnes TGCh yn cael ei flaenoriaethau a'i reoli mewn modd effeithiol | Y Pennaeth TGCh |
| 22. Sicrhau bod dogfennaeth gyflawn a dibynadwy yn cael ei chynnal ar gyfer y Systemau a'r Feddalwedd y mae'r Tîm Systemau Busnes TGCh yn eu trin, gan gynnwys ar gyfer rheoli newid yn effeithiol | Y Pennaeth TGCh |
| 23. Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei lledaenu mewn modd rhesymol ymhlith aelodau'r Tîm Systemau Busnes TGCh fel nad oes dibyniaeth allweddol ar unigolyn am wybodaeth hanfodol, megis cyfrineiriau | Y Pennaeth TGCh |

| | |
|---|---|
| 24. Bod yn ymwybodol o bwyntiau methiant unigol a rheoli'r risgiau sydd ynghlwm â systemau a meddalwedd TGCh | Y Pennaeth TGCh |
| 25. Cysylltu â chyflenwyr trydydd parti ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau, gan sicrhau bod unrhyw ofynion yn cael eu pennu'n glir a'u bod yn cael eu cyflawni'n llawn | Y Pennaeth TGCh |
| 26. Sicrhau yr ymchwilir yn dda i unrhyw gynigion gan aelodau'r Tîm Systemau Busnes, eu bod yn cael eu prisio'n gywir gydag adroddiad sydd wedi'i ysgrifennu'n dda, a bod holl ganllawiau'r adran a'r Gwasanaeth yn cael eu dilyn | Y Pennaeth TGCh |
| 27. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chyfarwyddyd y Pennaeth TGCh neu'r Tîm Arwain Gweithredol, yn gymesur â chyfrifoldebau ehangach yr adran | Y Pennaeth TGCh |

# Manylebau Personol

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Dirprwy Bennaeth TGCh |
| **LLEOLIAD:** | Yr Adran TGCh, Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **GRADD:** | Gradd 13 |
| **ADRAN:** | Yr Adran TGCh |

| CYMWYSTERAU / HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL / CYMHWYSEDDAU | HANFOD | DYMUNOL | ASESIAD |
|---|---|---|---|
| 1. Cymwysterau a gydnabyddir gan y Diwydiant TGCh | | ✓ | Ffurflen gais a Thystysgrifau |
| 2. Cymwysterau Rheoli Prosiect cydnabyddedig y diwydiant megis Prince II ac Agile | | ✓ | Ffurflen gais a Thystysgrifau |
| 3. Safon Uwch (neu gyfwerth) a/neu Radd mewn pwnc TGCh | | ✓ | Ffurflen gais a Thystysgrifau |
| 4. Trwydded Yrru Lawn | ✓ | | Ffurflen gais |
| 5. Cwrs arweinyddiaeth neu reoli ar gyfer rheoli llinell | | ✓ | Ffurflen gais |

**GWYBODAETH**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. Dealltwriaeth wych o dermau technegol, caledwedd a meddalwedd TGCh, arferion gorau TGCh cyfoes a deall manylebau TGCh. | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 7. Dealltwriaeth dda o arferion rheoli cyfoes ac arweinyddiaeth tîm effeithiol | ✓ | | Cyfweliad |
| 8. Gwybodaeth dda a gweinyddiaeth dechnegol ymarferol ar Weinyddion (Ffisegol a Rhithwir), Meddalwedd Menter a systemau Cwmwl/SaaS/IaaS | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 9. Dealltwriaeth dechnegol dda o Rwydweithio, Seilwaith, Dylunio Rhwydwaith, Dyfeisiau Rhwydweithio | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 10. Gwybodaeth wych am seiberddiogelwch, gan gynnwys yr arferion gorau, ffurfweddiadau diogel effeithiol, risgiau diogelwch cyfoes ac alinio â fframweithiau neu safonau diogel. | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 11. Gwybodaeth wych am Adfer yn sgil Trychinebau, Parhad Busnes, Rheoli Risg, Gwydnwch ac Afreidrwydd | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |

## PROFIAD

| | HANFOD | DYMUNOL | ASESIAD |
|---|---|---|---|
| 12. O leiaf 8 mlynedd mewn rôl TGCh | ✓ | | Ffurflen gais |
| 13. O leiaf 5 mlynedd o brofiad llawn-amser fel rheolwr mewn adran TGCh sy'n goruchwylio cylch gwaith sylweddol o waith TGCh. | ✓ | | Ffurflen gais |
| 14. Cyflawni un neu fwy o brosiectau TGCh mawr lle roedd gennych gyfrifoldeb sylweddol am y canlyniad | | ✓ | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 15. Profiad o ddefnyddio eich syniadau TGCh i sicrhau newid sefydliadol | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 16. Gweithio, yn ymarferol gyda ffurfweddu systemau Microsoft, gan gynnwys y rhan fwyaf o feysydd gweinyddiaeth Microsoft 365. | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |

## SGILIAU CYFATHREBU

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17. Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Saesneg | ✓ | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| 18. Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg | | ✓ | Ffurflen gais |
| 19. Cyfathrebu effeithiol â rheolwyr, staff a chyflenwyr yn arbennig ar gyfer termau technegol TGCh | ✓ | | Cyfweliad |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL:**

**JUSTIFICATION:**

**Paratowyd:** Pennaeth TGCh **Dyddiad:** Rhagfyr 2023

# Sut i wneud cais

Dyddiad Cau: 31 Mai 2025

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk